



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Llun 21 Mai 2018

Amser: 10:30 - 12:30

Lleoliad: SCC001, Pencadlys yr Heddlu,
Caerfyrddin

Yn bresennol:-

NH	Ymgynghorydd Annibynnol
DT	Ymgynghorydd Annibynnol
PS	Ymgynghorydd Annibynnol
KR	Ymgynghorydd Annibynnol
JJ	Ymgynghorydd Annibynnol
PR	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
PL	Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain)
ME	Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP
MBr (cofnodion)	Swyddog Cymorth Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, HDP
HH	Ymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu – SCCH
SC	AHEM
PJ	Prif Arolygydd – Gwasanaethau Dalfa
AW	Cwnstabl – Dysgu a Datblygu
CP	Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro – Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

Cyflwynodd pawb ei hun a nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

RB	Ymgynghorydd Annibynnol
NC	Ymgynghorydd Annibynnol
DML	Ymgynghorydd Annibynnol
JM	Arolygydd – Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw, heblaw am un newid sydd ei angen mewn perthynas â cham gweithredu 8. Ni fydd swyddog o HDP yn bresennol yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru yn y dyfodol gan nad ydynt wedi gofyn am bresenoldeb swyddog.

Diweddariad ynghylch camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol:-

Rhif y cam gweithredu	Manylion y Cam Gweithredu	Perchennog	Diweddariad:
1	EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y tudalen troseddau casineb a hefyd bod manylion cyswllt Swyddogion/ SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y tudalen we newydd.	EN	<p>Yn parhau - Bydd gwybodaeth ynghylch yr hyn yw Trosedd Casineb, sut y gall swyddog troseddau casineb helpu, a sut i gysylltu â swyddog troseddau casineb, yn cael ei chynnwys ar wefan HDP. Cytunwyd na fyddai manylion cyswllt unigol yn cael eu cynnwys gan nad oes modd cysylltu â swyddogion/SCCH pan nad ydynt ar ddyletswydd. Bydd y dudalen ar droseddau casineb yn nodi y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â swyddog troseddau casineb yn eu cymuned trwy alw 101.</p> <p>AL/EM i drefnu darn penodol o waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn y Gymuned Fyddar er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall sut i gysylltu â'r heddlu</p>
2	Ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fel rhan o'r adolygiad teledu cylch cyfyng.	MD	Yn parhau – ME i gysylltu â'r Adran TGCh er mwyn symud y mater yn ei flaen
3	AL i gysylltu â KR er mwyn trafod gwaith recriwtio Llywodraeth Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd	AL/KR	Yn parhau – Y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol i gysylltu â JR er mwyn trafod ymgyrch recriwtio llwyddiannus Llywodraeth

	ethnig.		Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a symud y mater yn ei flaen. Bydd arfer da a nodir yn cael ei gynnwys yn Ymgyrchoedd Heddlu Dyfed-Powys.
4	JL i rannu drafft o'r daflen newydd sy'n ymwneud â chwyno i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod.	JL	Yn parhau – Unodd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol ar 1 Ebrill 2018. Bydd y daflen newydd sy'n ymwneud â chwyno'n cael ei chyhoeddi ar ôl y dyddiad hwn.
5	EN i gynnwys rhif yr heddlu ar gyfer negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP.	EN	Cwblhawyd – ceir manylion am y gwasanaeth negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP.
4	EN i gynnwys esboniad ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng galwadau 999 a galwadau 101 ar dudalen we laith Arwyddion Prydain HDP.	EN	Cwblhawyd – ceir esboniad ar dudalen laith Arwyddion Prydain HDP.
5	Pob aelod o'r GYA i gael golwg ar wefan newydd HDP a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan - https://www.dyfed-powys.police.uk/	Pob aelod	Cwblhawyd – Yn aml, mae'r blychau ar gyfer HDP neu SCHTh yn rhy agos i'w gilydd. Mae angen mwy o fwch rhyngddyn nhw i'w gwneud hi'n gliriach pa wefan rydych chi'n mynd i fynd iddi. Mae unigolion wedi bod yn mynd i wefan SCHTh yn hytrach na gwefan HDP.
6	AL ac EN i ymgysylltu a thrafod sut y gellir cyflwyno gwasanaeth cyfieithu fideo laith Arwyddion Prydain i'r heddlu fel ffordd o gyfathrebu.	AL ac EN	Yn parhau Bydd ME ac EN yn ymgysylltu er mwyn symud y mater hwn ymlaen.
7	BJ i roi gwybod i PS pa ysgolion byddar arbenigol yr ymgysylltir â nhw fel rhan o'r cynllun School Beat Cymru.	BJ	Yn parhau
8	BJ ac AL i gwrdd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae HDP yn rhoi i ysgolion yn hygyrch ac yn cynnwys rhif gwasanaeth	BJ ac AL	Parhaus Bydd ME a BJ yn cadw mewn cysylltiad ac yn sicrhau bod rhif y gwasanaeth negeseuon testun yn cael ei gynnwys

	negeseuon testun difrys HDP.		mewn gwybodaeth a anfonir at ysgolion.
9	Pob aelod i edrych ar wefan School Beat a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan yw - www.schoolbeat.org	Pob aelod	Cwblhawyd – Mae lliwiau gwefan School Beat yn llachar iawn. Awgrymodd NH y dylai'r tudalennau ar gyfer plant 14 – 16 oed fod yn llai llachar gan fod lliwiau llachar yn fwy addas ar gyfer plant oed cynradd.
10	BJ i rannu cyflwyniad School Beat Cymru ymysg pob aelod o'r GYA ar ôl y cyfarfod.	BJ	Cwblhawyd – rhannwyd y cyflwyniad.
11	AL i gwrdd â CB a threfnu rhaglen dreigl o waith craffu gan fwydo i mewn i'r GYA er mwyn caniatáu i'r GYA sylwi ar ganfyddiadau a chodi unrhyw faterion o safbwynt amrywiaeth.	AL a CB	Cwblhawyd – Mae gwaith craffu SCHTh yn eitem sefydlog ar agenda'r GYA.
12	MBr i osod Gwaith Craffu SCHTh fel eitem sefydlog ar agenda'r GYA.	MBr	Cwblhawyd – fel uchod.
13	Aelodau o'r GYA i anfon awgrymiadau ymlaen ynghylch sut y gall HDP gefnogi menywod i symud ymlaen at rolau uwch o fewn y sefydliad.	Pob aelod	Cwblhawyd

3. Gwaith Craffu SCHTh

Darllenodd NH yr adroddiad gwybodaeth i'r grŵp ar ran CB. Cynhaliodd panel sicrhau ansawdd SCHTh ei adolygiad cyntaf o'r cofnodion stopio a chwilio ym mis Tachwedd 2017. Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yng nghyfarfod Bwrdd Atebolwydd yr Heddlu ar 13 Chwefror 2018. Cytunodd y grŵp fod angen mwy o fanylion yn yr adroddiad gwybodaeth. h.y. mae angen i'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol (GYA) wybod beth yw'r rheswm dros chwilio.

Dyweddodd DT y bydd hi'n her cael yr adrodd yn gywir; mae angen sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei hanfon ymlaen er mwyn gwneud sylw gwerthfawr. Cytunodd CP, gan ddweud bod angen mwy o gyd-destun o fewn yr adroddiad gwybodaeth.

Gofynnodd y grŵp am eglurhad o ran pa un ai a yw cofnodion stopio a chwilio yn cael eu dewis ar hap. Nododd NH bod y panel wedi derbyn cyflwyniad ynghylch Troseddau Casineb ac roedd am wybod pa un ai a oedd hyn o ganlyniad i'r ffaith eu bod nhw ond wedi dechrau edrych ar ffigurau troseddau casineb yn ddiweddar. Ni fyddai bore o

hyfforddiant yn eu galluogi i ddarllen i mewn i bethau a gweld beth sydd ar goll. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â pha mor amrywiol yw'r panel craffu, a holwyd sut maen nhw'n recriwtio er mwyn cael panel amrywiol. Gofynnwyd pa mor gynhwysol/anghyhwysol yw'r grŵp. Roedd y grŵp hefyd yn teimlo y dylai aelod o'r GYA fod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Sicrhau Ansawdd pan mae'r panel yn craffu ar gofnodion Stopio a Chwilio.

Cam Gweithredu: - Dosbarthu gwybodaeth sy'n ymwneud â chraffu i'r GYA 7 diwrnod cyn y cyfarfod o leiaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddarllen a deall y wybodaeth.

Cam Gweithredu: - ME a CB i gwrdd a rhoi adborth i'r Panel Sicrhau Ansawdd ynghylch sut i adrodd am eu canfyddiadau a thrafod cynrychiolaeth o'r GYA mewn adolygiadau o'r broses Stopio a Chwilio yn y dyfodol.

4. Ymgeisydd Cyfiawnder Troseddol / cydweddoldeb â'r GYA

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr ar gyfer y GYA sy'n cael eu cyflogi fel ynadon, ynadon heddwch, swyddogion prawf ac ati. Cytunodd y grŵp fod unrhyw unigolion sy'n gweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol yn annibynnol, ac ni ddylid eu rhwystro rhag gwneud cais. Os yw'r angen yn codi, gall unigolyn ddatgan gwrthdaro buddiannau pe bai rhaid.

5. Proses Recriwtio Newydd ar gyfer Cwnstabiail Heddlu

Cyflwynodd AW y broses recriwtio newydd i'r grŵp. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r fframwaith cymhwyster addysg proffesiynol.

Esboniodd AW fod angen cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfwerth.

Mynegodd NH bryder y gallai'r broses newydd eithrio unigolion o'r gymuned LHDT oherwydd gallai rhai fod wedi methu â chael cymwysterau Safon Uwch oherwydd problemau adref.

Holodd DT pa un ai a oedd modd i SCHTh ddod yn gwnstabl heddlu gan y dylai fod gan brofiad ymarferol werth academaidd. Dywedodd AW fod hyn yn derbyn sylw ac y byddai'n cael ei ystyried yn brentisiaeth Lefel 4.

Bydd y broses recriwtio newydd yn cychwyn ym mis Mawrth 2019. Dylai aelodau o'r GYA anfon unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses newydd at AW.

Mynegodd JJ bryder ynglŷn â SCHTh yn siarad â'i gilydd yn hytrach nag aelodau o'r cyhoedd yn ardal Sir Gaerfyrddin, a pha un ai a yw'n rhatach cael 1 cwnstabl heddlu yn hytrach na 2 SCCH. Gan fod hyn yn fater gweithredol, bydd yr adborth hwn yn cael ei symud ymlaen gan PJ y tu allan i'r cyfarfod hwn.

Gofynnodd y grŵp i AW ddychwelyd yn 2019 er mwyn rhoi diweddariad ynglŷn â'r broses cymhwyster addysg proffesiynol.

Cam Gweithredu: - Aelodau o'r GYA i anfon unrhyw gwestiynau/adborth mewn perthynas â'r fframwaith cymhwyster addysg proffesiynol at AW.

6. Diweddariad Ynglŷn â Dalfeydd

Rhoddodd PJ ddiweddariad i'r grŵp mewn perthynas â Dalfeydd. Dosbarthwyd copi o'r ystadegau mewn perthynas â dalfeydd i bob aelod o'r GYA a oedd yn y cyfarfod hwn. Rhoddwyd gwybod i'r grŵp bod arolwg AHEM yn gadarnhaol ar y cyfan, a nodwyd pwyntiau dysgu da.

- Mae unigolion sy'n dod i mewn i'r ddalfa yn awr yn cael eu cyfeirio at byrth amrywiol. h.y. mae unigolion â chefnidir lluoedd arfog yn cael eu cyfeirio at y porth cyn-filwyr.
- Mae fersiwn hawdd ei ddarllen o'r rhybudd ar gael ym mhob dalffa. h.y. fersiwn sy'n esbonio hawliau a haeddiannau unigolyn.
- Mae pob cell yn y dalfeydd yn niwtral o ran rhywedd yn awr.

Bu gor-gofnodi o ran dadwisgo a chwilio – h.y. cofnodi'r adegau yr oedd unigolion yn newid eu dillad, nid ar gyfer proses dadwisgo a chwilio yn unig.

Awgrymodd NH y dylai'r data ar gyfer eleni, llynedd a'r flwyddyn cyn hynny aros ar y daenlen.

Mynegodd PS bryder ynglŷn â phobl ag anawsterau dysgu. Dywedodd nad ydynt yn hoffi pobl yn gofyn gormod o gwestiynau. Maen nhw'n mynd i banig ac yn gwylltio am eu bod nhw'n mynd yn amddiffynnol. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag unigolion sydd ag anawsterau dysgu. Dywedodd PJ fod oedolyn priodol yng nghwmni rhywun sydd ag anawsterau dysgu bob amser. Holodd PS pa un ai a fyddai'r oedolyn priodol yn rhywun maen nhw'n ei adnabod oherwydd byddai unigolion yn fwy cyfforddus gyda rhywun maen nhw'n adnabod. Dywedodd PJ y byddai'r oedolyn priodol, lle mae'n bosibl, yn rhywun y mae'r unigolyn yn ei adnabod os yw'n addas.

Dywedodd DT y dylai'r Ystadegau gynnwys blwch ar gyfer materion lluosog, h.y. Anawsterau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Dywedodd PJ mai'r peth pwysig o ran data yw nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Rhoddir diweddariad ynghylch dalfeydd bob yn ail gyfarfod o'r GYA.

Cam Gweithredu: - PS i sicrhau bod data'r flwyddyn flaenorol ynghylch dalfeydd yn cael ei gynnwys ar y daenlen er mwyn cymharu.

Cam Gweithredu: - PJ i wirio pa un ai a yw'n bosibl cynnwys data lle mae materion lluosog yn cael eu dewis gan unigolyn.

7. Diweddariadau o Gyfarfodydd Eraill

7a. Brysbennu Iechyd Meddwl

Hysbysodd DT y grŵp fod y prosiect Brysbennu Iechyd Meddwl wedi'i estyn hyd 31 Rhagfyr 2018.

Mae'n bosibl y bydd y cyfarfod strategaeth Iechyd meddwl yn cael ei rannu'n ddau gyfarfod yn y dyfodol. Bydd un cyfarfod ar gyfer Iechyd Meddwl o fewn y gwasanaeth heddlu a'r llall ar gyfer materion allanol. Mynegodd DT bryder ynghylch teithio i'r ddau gyfarfod.

8. Unrhyw Fusnes Arall

Mewn perthynas â Rhaglen Gyswilt Craidd yr Heddlu i Ysgolion Cymru Gyfan, mae DT wedi ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru'n mynegi ei bryder bod y Llywodraeth yn mynd i dynnu cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn ôl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb gan ddweud bod trafodaethau mewn perthynas â chyllid ar gyfer y rhaglen hon yn parhau, a byddant yn canolbwyntio ar oblygiadau torri cyllideb ar gyfer y rhaglen a'r berthynas rhwng yr heddlu ac ysgolion Cymru yn y dyfodol, tra bod yr angen i ddiogelu gwasanaethau triniaeth wedi hysbysu'r penderfyniad i ddod â chyfraniad Llywodraeth Cymru tuag at Raglen Gyswilt Craidd yr Heddlu i Ysgolion Cymru Gyfan ar ôl y flwyddyn ariannol 2018-19.

Dywedodd CP fod pryder ynghylch cyllid ar gyfer Rhaglen Gyswilt Craidd yr Heddlu i Ysgolion Cymru Gyfan wedi'i godi, a bod y Ditectif Gwnstabl Richard Lewis yn awr yn arwain ar hyn. Nodwyd bod yr ohebiaeth annibynnol hon yn werthfawr iawn, a diolchwyd i DT am ei gonsyrn.

9. Gwerthusiad o'r cyfarfod

Sicrhodd NH fod deilliannau'r cyfarfod fel y'u nodwyd yn agenda'r cyfarfod wedi'u bodloni. Cadarnhawyd fod yr holl ddeilliannau wedi'u bodloni.

Cadarnhawyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 24 Medi 2018 am 10:30y.b. yng Nghanolfan Reoli Powys, Llandrindod, Powys.

Crynodeb o'r Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Hwn.

Cam Gweithredu		Perchennog
1	Dosbarthu gwybodaeth sy'n ymwneud â chraffu i'r GYA 7 diwrnod cyn y cyfarfod o leiaf, er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddarllen a deall y wybodaeth.	CB/MB

2	ME a CB i gwrdd a rhoi adborth i'r Panel Sicrhau Ansawdd ynghylch sut i adrodd am eu canfyddiadau a thrafod cynrychiolaeth o'r GYA mewn adolygiadau o'r broses Stopio a Chwilio yn y dyfodol.	ME/CB
3	Aelodau o'r GYA i anfon unrhyw gwestiynau/adborth mewn perthynas â'r fframwaith cymhwyster addysg proffesiynol at AW.	Aelodau'r GYA
4	PS i sicrhau bod data'r flwyddyn flaenorol ynghylch dalfeydd yn cael ei gynnwys ar y daenlen er mwyn cymharu.	PS
5	PJ i wirio pa un ai a yw'n bosibl cynnwys data lle mae materion lluosog yn cael eu dewis gan unigolyn.	PJ